

# CLUB LIFE

*Empower, Engage, Sustain*

## Cyfleoedd Cyllido Allanol

Isod mae amrywiaeth o gyfleoedd cyllido y gallwch eu defnyddio i helpu gydag agweddau gwahanol yn eich clwb. Bydd y rhain yn amrywio o grantiau lleol penodol bychain i grantiau cenedlaethol mwy.

Os oes arnoch angen cymorth pellach i lenwi'r ffurflenni, cysylltwch â'ch Rheolwr Cyflawni Rhanbarthol - bydd yn fwy na pharod i'ch helpu.

### 1) Betfair Cash-4-Clubs

Cynllun grantiau bach yn cael ei weithredu gan Betfair, cwmni betio ar-lein, yw Betfair Cash-4-Clubs. Mae'n rhoi arian tuag at offer ac addysg hyfforddwyr, yn ogystal â phethau eraill. Mae uchafswm o £1,000 ar gael. Mae hwn yn gynllun tebyg iawn i'r Gist Gymunedol!

Am fwy o wybodaeth, ewch i: <http://www.cash-4-clubs.com/about-us/>

### 2) Comic Relief

Yn y DU, mae Comic Relief yn ariannu gwaith sy'n ceisio cyflawni o leiaf un o'n pump o'n themâu ni. Rydym yn gwneud hyn drwy gefnogi sefydliadau sydd â phobl, syniadau a gallu i fynd i'r afael â phroblemau cymhleth a chreu newid cymdeithasol cadarnhaol ledled y DU. Mae pobl hŷn a phobl ifanc yn bwysig i ni, fel y mae eraill sy'n wynebu anfanteision, yn enwedig mewn ardaloedd gyda lefel uchel o amddifadedd. Rydym hefyd yn croesawu cynigion gan brosiectau sy'n defnyddio chwaraeon i drawsnewid bywydau.

Am fwy o wybodaeth, ewch i: <http://www.comicrelief.com/our-grants/uk/what-we-fund>

### 3) Ymddiriedolaeth Cod Post y Bobl

Dyma ffrwd newydd o gyllid ar gyfer Cymru, gyda grantiau hyd at £5k ar gael. Mae'r rhaglen yn cwmpasu nifer o feysydd ac un o'r rhain yw chwaraeon cyhoeddus.

Am fwy o wybodaeth, ewch i: <http://www.postcodetrust.org.uk/small-grants.htm>



For more information, visit:

[www.hockeywales.org.uk/play/club-life](http://www.hockeywales.org.uk/play/club-life)



#### 4) GwirVol

Mae GwirVol yn bartneriaeth rhwng y trydydd sector, y sector preifat a'r sector cyhoeddus, a arweinir gan farn pobl ifanc yng Nghymru. Mae'r Bartneriaeth yn bodoli i ddarparu fframwaith i sicrhau newid mawr yn nifer ac amrywiaeth y gwirfoddolwyr ifanc ac i roi mwy o gyfleoedd gwirfoddoli, o safon uwch, iddynt.

Mae hon yn rhaglen sy'n cynnig grantiau hyd at £10,000 i sefydliadau sydd eisiau datblygu cyfleoedd gwirfoddoli newydd ar gyfer pobl ifanc.

Am fwy o wybodaeth, ewch i: <http://www.wcva.org.uk/funding/wcva-funding/volunteering-in-wales>

#### 5) Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm

Mae Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm yn awyddus i gefnogi prosiectau sy'n seiliedig ar wirfoddolwyr, yn enwedig gwirfoddolwyr o leiafrifoedd ethnig a phobl ag anableddau. Hefyd, mae'r ymddiriedolaeth yn cydnabod y gwahaniaeth y gall hyfforddiant ei wneud i ddatblygiad camp ac mae'n awyddus i ariannu costau offer a hyfforddiant os yw'r angen wedi cael ei nodi'n glir gan yr ymgeisydd. Mae gan yr ymddiriedolaeth ddiddordeb penodol mewn cefnogi prosiectau sy'n gwella ansawdd bywyd pobl a chymunedau sy'n wynebu anfantais.

Am fwy o wybodaeth, ewch i: <http://www.millenniumstadiumtrust.org.uk/>

#### 6) Sport Relief

Drwy ddefnyddio'r pŵer galluogi sydd gan chwaraeon, mae rhaglen Dyfarniadau Sport Relief yn anelu at roi cyfle i bobl ifanc rhwng 11 a 21 oed uno pobl a chymunedau sy'n wynebu gwrthdaro neu'n rhanedig oherwydd cefndir neu ddiwylliant. Bydd yn rhoi dyfarniadau hyd at uchafswm o £5,000 i bobl ifanc ysbrydoledig sydd â syniadau arloesol, cysylltiedig â chwaraeon, ar gyfer mynd i'r afael â phroblemau cymdeithasol yn eu cymunedau.

Am fwy o wybodaeth, ewch i: [www.unltd.org.uk/sportreliefawards](http://www.unltd.org.uk/sportreliefawards)

#### 7) Dulux Let's Colour

Mae Canolfan Addurno Dulux yn gwahodd elusennau a grwpiau cymunedol yn eich ardal chi i wneud cais am rodd o baent.

Drwy wneud cais am rodd, neu enwebu grŵp rydych yn teimlo'n angerddol yn ei gylch i gael ei ystyried - bydd gan elusennau a sefydliadau cymunedol lleol siawns o gael trawsnewid lliwgar, a fydd yn gwneud lles i'r gwirfoddolwyr ac i'r bobl sy'n dibynnu ar y gwasanaethau a ddarperir ganddynt.

Am fwy o wybodaeth, ewch i: <http://www.duluxdecoratorcentre.co.uk/community-donation-application.jsp>



For more information, visit:

[www.hockeywales.org.uk/play/club-life](http://www.hockeywales.org.uk/play/club-life)



## 8) sported.

Unwaith mae sefydliad wedi cael ei dderbyn fel aelod o 'sported', mae dau fath o grant y gall yr aelodau wneud cais amdanynt:

**Cynllun Grantiau Bach:** Grantiau bach hyd at £2,000. Mae'r grant yma ar gael i bob aelod nad yw'n derbyn cefnogaeth mentor ac sydd â throsiant blynyddol o lai na £50,000. Hefyd mae'n rhaid iddynt fodloni'r meini prawf eraill sy'n gysylltiedig â'r grant yma.

**Cynllun Grantiau Mawr:** Mae'r grant unigol yma ar gael i aelodau sydd wedi cael mentor. Mae'r rhan fwyaf o'r grantiau sy'n cael eu dyfarnu rhwng £2,000 a £10,000. Mae grantiau mwy'n cael eu dyfarnu o bryd i'w gilydd ond mae hyn yn cynnwys proses hirach. Bydd eich Rheolwr Gwlad yn egluro'r broses i chi os yw hynny'n berthnasol. Bydd 'sported' yn ystyried cyllido cyflogau, costau rhedeg/gorbenion a chostau cyflwyno rhaglen. Byddwn hefyd yn ystyried cefnogi prosiectau am fwy na blwyddyn, ond bydd y cyllid yn cael ei gynnig fel rhan o becyn cymorth ehangach bob amser, er mwyn sicrhau datblygiad parhaus eich clwb neu eich prosiect.

Am fwy o wybodaeth, ewch i: [www.sported.org.uk](http://www.sported.org.uk)

## 9) Y Mudiad Cymunedol yng Nghymru

Mae'r Mudiad Cymunedol yng Nghymru, ynghyd â'n rhoddwyr, ein cleientiaid a'n deiliaid cronfa, yn buddsoddi mewn cryfhau cymunedau. Mae ein grantiau'n cydnabod rôl ysbrydoledig grwpiau, prosiectau ac elusennau cymunedol mewn adnabod a mynd i'r afael ag anghenion lleol. Rydym hefyd yn dyfarnu grantiau ac ysgoloriaethau addysgol.

Am fwy o wybodaeth, ewch i: <http://www.cfiw.org.uk/eng/grants>

## 10) Dyfarniad Cymunedol Ymddiriedolaeth Elusennol Tesco

Mae grantiau hyd at £25,000 ar gael i gymunedau sydd wedi'u lleoli'n agos at siop Tesco, ond mae'r rhaglen grantiau llai sydd â dyfarniadau hyd at £4,000 yn haws ymgeisio iddi. I fod yn gymwys, mae'n rhaid i'r offer ddarparu budd uniongyrchol i blant, yr henoed a phobl anabl. Mae'r prosiectau a gefnogwyd eisoes yn cynnwys offer cae chwarae ac offer arbenigol ar gyfer pobl anabl.

Am fwy o wybodaeth, ewch i:

[http://www.tescopl.com/assets/files/cms/Resources/Community\\_Award\\_guidelines.pdf](http://www.tescopl.com/assets/files/cms/Resources/Community_Award_guidelines.pdf)

## Grantiau Awdurdodau Lleol

Mae nifer o Awdurdodau Lleol yn cynnig grantiau i glybiau a sefydliadau lleol felly cofiwch edrych ar eu gwefannau neu cysylltwch â'ch cyngor lleol i weld beth sydd ganddynt i'w gynnig.



For more information, visit:

[www.hockeywales.org.uk/play/club-life](http://www.hockeywales.org.uk/play/club-life)

